

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	29 Ebrill 2021
TEITL:	Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd, Llywodraeth Cymru
AWDUR:	Gwenllian Williams
PWRPAS YR ADRODDIAD	<p>Rhannu gwybodaeth gyda'r aelodau am bolisi newydd gan Llywodraeth Cymru</p> <p>Atodiad: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisi-cenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf</p>

1. Cefndir

- 1.1 Ym mis Chwefror 2020 lansiodd Llywodraeth Cymru gyfnod ymgynghori ar gyfer ei ddogfen bolisi drafft ar Drosglwyddo Iaith o fewn y Teulu.
- 1.2 Cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn oherwydd yr amgylchiadau tan ddiwedd Medi 2020, a chyhoeddwyd fersiwn derfynol y Polisi ar 26 Ionawr 2021.
- 1.3 Mae'r Polisi hwn yn rhan o gynlluniau y Llywodraeth i weithredu ar amcanion y strategaeth iaith genedlaethol Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017). Mae'n cynnig syniadau ar gyfer gweithredu yn benodol ym maes trosglwyddo'r iaith Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Roedd Rhaglen Waith gychwynnol y strategaeth (2017-21) yn cynnwys tri cham gweithredu penodol i gefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd, sef:
- Cydweithio gyda'r prif randdeiliaid i ddatblygu Polisi cenedlaethol sy'n seiliedig ar waith ymchwil diweddar yn amlinellu sut ry'n ni'n bwriadu sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael y cymorth gorau posibl i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.
 - Adolygu a mireinio Rhaglen Cymraeg i Blant i sicrhau ein bod yn parhau i roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni/gofalwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch cyflwyno'r Gymraeg i'w plentyn yn y cartref.
 - Parhau i weithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod bydwagedd, ymwelwyr iechyd a phartneriaid eraill yn rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r iaith mor gynnar â phosibl, a bod rhieni newydd a darpar rieni yn deall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Mae'r Polisi hwn yn gwireddu'r cyntaf o'r tri cham hyn ac yn sail ar gyfer ein gwaith yn y maes hwn am y ddegawd nesaf. Mae'r ddau arall eisoes ar waith drwy gyfrwng rhaglenni a chynlluniau eraill gan y Llywodraeth.

1.4 Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael a'r cyntaf o'r amcanion yma.

1.5 Cyflwynodd yr Uned Iaith a Chraffu ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Mai 2020, ar y cyd gyda'r Adran Addysg. Ni fu yn bosib cyflwyno'r ymgynghoriad i'r Pwyllgor iaith ar y pryd oherwydd amgylchiadau'r pandemig, ond fe rown grynodedeb yn yr adroddiad hwn o'r prif faterion a godwyd gennym.

1.6 Gellir gweld copi o'r ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion dderbyniodd y Llywodraeth i'r ymgynghoriad drwy ddilyn y linc yma: <https://llyw.cymru/polisi-cenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd>

1.7 Mae'r ddogfen bolisi derfynol wedi ei chynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn

2. Crynodeb o'n hymateb i'r polisi drafft

2.1 Ein prif sylwad ar y ddogfen drafft oedd ein bod yn croesawu dogfen sydd yn manylu ar fwriadau y Llywodraeth yn y maes allweddol yma, a'n bod yn cytuno bod angen gweithredu a bod angen gwella dealltwriaeth am arferion pobl wrth benderfynu trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Serch hynny roeddem hefyd yn bryderus am rai agweddau o'r polisi drafft, ac o'r diffyg manylder oedd yn cael ei gynnig mewn manau.

2.2 Roedd ein prif bryderon yn cynnwys:

- **Amseru cyhoeddi'r ddogfen:**

Roeddem yn cwestiynu pam bod dogfen oedd yn gosod gweledigaeth gweithredu ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yn cael ei chyhoeddi nawr, cyn i ganlyniadau'r cyfrifiad nesaf gael eu cyhoeddi. Gan dderbyn bod y Llywodraeth eisiau gweithio mewn cyfnodau o 10 mlynedd nes y targed yn 2050, nid oeddem yn teimlo bod amseru y ddogfen yma yn effeithiol, ac yn manteisio ar y wybodaeth ddiweddaraf am sgiliau iaith y boblogaeth. Roeddem hefyd yn teimlo yn gryf y dylai'r ddogfen derfynol adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol o ran yr heriau newydd sydd wedi codi yn sgil y pandemig.

- **Sylfaen tystiolaeth:**

Teimlwyd bod y polisi yn dibynnu yn ormodol ar waith ymchwil oedd wedi ei gynnal gan y Llywodraeth ei hun, a hynny gyda sampl fechan iawn o bobl. Teimlwyd y dylid bod wedi cynnal rhywfaint o'r ymchwil y cyfeirir ato yn y ddogfen fel camau gweithredu - er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r problemau a'r rhwystrau wrth drosglwyddo iaith – cyn mynd ati i lunio polisi a chamau gweithredu.

- **Nifer y camau gweithredu:**

Teimlwyd bod gormod o gamau gweithredu yn cael eu nodi, a bod rhywfaint o ddyblygu i'w weld yn yr hyn oedd yn cael ei gynnig. Barn y swyddogion oedd y byddai cynifer o gamau yn ei gwneud yn anodd monitro a blaenoriaethu o fewn y cyfnod o 10 mlynedd. Nid oedd digon o fanylder yn rhai ohonynt ychwaith er mwyn i ni allu deall beth yn union beth oedd gan y Llywodraeth mewn golwg. Cynigiwyd bod angen symleiddio a

chanolbwyntio ar rai meysydd allweddol, ac hefyd bod angen dangos yn glir sut roedd y camau yn cysylltu yn ôl i flaenoriaethau'r strategaeth iaith, Cymraeg 2050.

- **Rôl technoleg:**

Roeddem hefyd yn awyddus i weld sylw penodol yn cael ei roi i rol technoleg, a'r dylanwad y gall ei gael ar ddefnydd iaith. Roeddem am weld y Llywodraeth yn cydnabod y datblygiadau mawr sydd wedi bod yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda thwf gweithgareddau ar-lein, ac yn ymrwymo i gynnal a chefnogi y bwrlwm hwnnw i'r dyfodol.

3. Cynnwys y Polisi terfynol

3.1 Fel y nodwyd, mae'r ddogfen bolisi yma yn amlinellu camau gweithredu y Llywodraeth ar gyfer cyflawni amcanion sydd wedi eu gosod o fewn strategaeth Cymraeg 2050.

3.2 Mae sylw, a chynulleidfa darged, y polisi yn benodol iawn. Yn y bôn, mae'n targedu pobl sydd wedi ennill y Gymraeg drwy'r gyfundrefn addysg, ac yn edrych ar ffyrdd o ddylanwadu ar eu dewisiadau pan fydda nhw yn dod yn rhieni eu hunain.

“Nod y Polisi yw galluogi teuluoedd lle mae gallu eisoes i ddefnyddio'r Gymraeg—er efallai nad yw'r gallu hwnnw ar waith—ddefnyddio pa Gymraeg bynnag sydd ganddynt gyda'u plant.”

3.3 Yr hyn y mae'n ei wneud yw gosod cynllun gwaith i gynorthwyo'r rhai sydd â gallu yn y Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant, a helpu pobl ddi-hyder, neu'r rhai sydd heb arfer â defnyddio eu Cymraeg, i ddeall bod modd iddyn nhw hefyd siarad Cymraeg â'u plant.

3.4 Mae rhai newidiadau sydd i'w gweld yn y ddogfen derfynol, ac sydd yn ymateb i sylwadau yn yr ymgynghoriad, yn cynnwys:

- Nodi y bydd llais y plentyn yn cael ei ystyried wrth gynllunio a gweithredu.
- Nodi y byddant yn ystyried rôl rhwydweithiau teuluol ehangach, gan gynnwys y gymuned ac hefyd yn ystyried dylanwadau cymdeithasol allanol ar ddefnydd iaith.
- Rhoi lle canolog i sylfaen data ac ymchwil a seilio yr ymyriadau ar wyddoniaeth ymddygiadol.
- Newidiadau i'r rhaglen waith i gysoni a chyfuno rhai camau.

3.5 Mae gan y polisi bedwar nod cyffredinol:

- i. Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- ii. Ailgyrnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- iii. Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- iv. Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant.

3.6 Mae'r rhaglen waith i'w gweld ar dudalennau 18 ymlaen o'r polisi sydd wedi ei atodi, ac mae'n cynnwys camau sydd yn cynnwys:

- y modd y bydd y Llywodraeth yn monitor y gwaith,
- treialu rhaglen adduned defnydd iaith, tebyg i brosiect llwyddiannus yng ngwlad y Basg.
- rhoi'r sgiliau a'r adnoddau dysgu i weithwyr proffesiynol i'w helpu i annog plant mewn modd cadarnhaol i siarad Cymraeg â'i gilydd
- ymchwilio i'r cyfleoedd y mae gemau, technoleg arall, a chwarae corfforol, yn eu cynnig i helpu plant i ddefnyddio mwy o Gymraeg a sut y gall hynny yn ei dro gynnig cyfleoedd i helpu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd

4. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

Gofynnir i'r aelodau ddarllen y polisi terfynol, derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a chynnig unrhyw sylwadau perthnasol.